# CANLLAW CWRICWLWM Y IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

TREES FOR CITIES

| HYDREF | GWANWYN | HAF |
|---|---|---|
| Gwrando ar straeon yr ardd. Jac a'r Goeden Ffa, Y Feipen Enfawr, Y Lindysyn Llwglyd Iawn.<br>Dysgu rhigymau a symudiadau sy'n gysylltiedig â straeon.<br>Wrth arsylwi'r ardd, chwiliwch am ymwelwyr â'r ardd: adar, trychfilod a mathau eraill o fywyd gwyllt. Rhowch gynnig ar wrando, gan edrych yn ofalus ar yr ardd. Eisteddwch a thrafod beth rydych chi wedi dod o hyd iddo ac wedi'i fwynhau yn yr ardd. | Canwch ganeuon y gwanwyn a gwneud eich symudiadau eich hun.<br>Lluniwch ganllaw adnabod y gwanwyn gan ddefnyddio delweddau o flodau'r gwanwyn, dail, planhigion bach neu drychfilod. Ewch allan i'r ardd a pharu'r lluniau gyda'r pethau y gallwch eu gweld. | Anogwch drafodaeth grŵp drwy amser cylch, gan wrando a dysgu gan eraill. Arsylwch a thrafod sut mae'r ardd wedi newid drwy'r flwyddyn. Defnyddiwch luniau o'r ardd i atgoffa'r plant sut roedd yn edrych yn yr hydref a'r gwanwyn. Tynnwch luniau newydd a gwneud arsylwadau newydd.<br>Meddyliwch am y gwahanol dymhorau. A all disgyblion esbonio'r mathau o ddillad sydd eu hangen arnynt a'r pethau y gallant eu gwneud i'w cadw'n oer yn yr haf? |
| Enwau bwydydd<br>Labelwch y planhigion yn eich Gardd Llawn Bwyd yn yr iaith ychwanegol rydych chi'n ei dysgu. | Helfa Stori<br>Hongiwch/cuddiwch wahanol gymeriadau, lleoliadau a gwrthrychau yn eich Gardd Llawn Bwyd. Mae'n rhaid i'r plant ddewis un ac yna, yn eu tro, adrodd gwahanol straeon gan ddefnyddio'r cymeriad, y gosodiad a'r gwrthrych o'u dewis. (siarad a gwrando) | Cân ar Thema Natur<br>Dysgwch a pherfformio cân ar thema'r Ardd Llawn Bwyd yn yr iaith ychwanegol rydych chi'n ei dysgu neu hyd yn oed gyfansoddi'ch cân eich hun. Perfformiwch hi yn yr ardal awyr agored! |
| Byddwch yn werthwr ar stondin marchnad ac argyhoeddi cwsmer pam y dylent brynu un o'ch llysiau chi. (siarad a gwrando) | Ysgrifennwch gerdd acrostig am un o'r llysiau rydych chi wedi'u tyfu. (ysgrifennu ffuglen)<br>Perfformiwch eich darn o farddoniaeth lysiau gan ddefnyddio technegau sain, drama a pherfformio. (siarad a gwrando) | Lluniwch hysbyseb ar gyfer eich Gardd Llawn Bwyd a beth sy'n tyfu yno. (ysgrifennu ffeithiol) |
| Ysgrifennwch lyfr ryseitiau dosbarth gan ddefnyddio iaith cyfarwyddo a gan ddefnyddio amrywiaeth o atalnodau, er enghraifft pwyntiau bwled, hanner colon a chromfachau. (gramadeg ac ysgrifennu ffeithiol) | Ysgrifennwch arwydd gwybodaeth sy'n rhoi manylion am y bywyd gwyllt sy'n byw yn eich Gardd Llawn Bwyd. Ysgrifennwch hwn fel pe bai'n cael ei arddangos mewn man cyhoeddus. (ysgrifennu ffeithiol) | Gwnewch fwrdd stori o destun eich dosbarth gan ddefnyddio deunyddiau naturiol o'ch Gardd Llawn Bwyd a gweld a yw'r dosbarth yn gwybod o ba ran o'r stori mae'r bwrdd yn dod. (ysgrifennu ffuglen)<br>Actiwch yr olygfa rydych chi wedi'i chreu yn eich Gardd Llawn Bwyd. (siarad a gwrando) |
| Cuddiwch wahanol lyfrau ymysg y planhigion. Mae'r plant yn mynd o gwmpas ac yn penderfynu pa un yr hoffent ei ddarllen fwyaf a pham. (darllen) | Cuddiwch amrywiaeth o ymadroddion adferfol i ddechrau brawddeg o amgylch eich Gardd Llawn Bwyd. Gofynnwch i'r plant ddod o hyd iddyn nhw a llunio brawddeg gyffrous. (gramadeg) | Ysgrifennwch ddarn o farddoniaeth berswadiol ar gyfer un o'r llysiau – dewiswch safbwynt negyddol neu gadarnhaol. (ysgrifennu ffuglen) |
| Paratowch gyflwyniad ar fanteision ecolegol bwyd wedi'i dyfu'n lleol a'i gyflwyno i'ch cynulleidfa. (siarad a gwrando) | Ysgrifennwch ddarn agoriadol yn seiliedig ar bryf sy'n byw yn eich Gardd Llawn Bwyd, gan ddefnyddio iaith drosiadol i ddisgrifio'i leoliad. (ysgrifennu ffuglen) | Rhestrwch enwau'r planhigion yn eich Gardd Llawn Bwyd a nodwch eu ffurfiau unigol a lluosog, e.e. afal/afalau, moronen/moron, tomato/tomatos. (gramadeg) |

| | | |
|---|---|---|
| Chwaraewch gêm o raffu cysyllteiriau. Sefwch yn eich Gardd Llawn Bwyd a, gan ddisgrifio'r hyn a welwch, cerddwch o gwmpas yn gwneud brawddegau gan ddefnyddio cysyllteiriau. E.e. Dyma'r tŷ gwydr lle gallwch ddod o hyd i'r offer. (siarad a gwrando) | Crëwch lwybr cydwybod yn eich Gardd Llawn Bwyd o wahanol blanhigion ac anifeiliaid. (siarad a gwrando)<br>Ysgrifennwch sgript yn seiliedig ar ddau greadur neu lysieuyn sy'n byw yn eich Gardd Llawn Bwyd. Dychmygwch eu bod yn gallu siarad. Beth fydden nhw'n ei ddweud? Cyflwynwch eich gwaith i Trees for Cities er mwyn i ni ei rannu! (ysgrifennu ffuglen) | Cymerwch ddelwedd o 'Geiriau Diflanedig' ac ysgrifennwch eich darn eich hun o farddoniaeth acrostig. Pa air o fyd natur fyddech chi wedi'i gynnwys? Pam? (ysgrifennu ffuglen)<br>Cyfystyron – Labelwch rannau o'ch Gardd Llawn Bwyd gydag ansoddeiriau 'diflas'. Y plant i ddewis ansoddair ac, mewn grwpiau, i feddwl am gyfystyron mwy pwerus. (gramadeg) |
| | Ymchwiliwch i rywogaethau o blanhigion anfrodorol ac ysgrifennwch gofnod dyddiadur o sut y byddai'n teimlo i fod y rhywogaeth anfrodorol honno yn eich Gardd Llawn Bwyd. (ysgrifennu ffuglen)<br>Ymchwiliwch i naturiaethwr neu ecolegydd enwog (David Attenborough, Charles Darwin, Edward Llwyd). Ysgrifennwch fywgraffiad am eu bywyd. (ysgrifennu ffeithiol) | Casglwch (dros dro) wahanol drychfilod a phryfed o'ch Gardd Llawn Bwyd. Rhowch nhw mewn cynwysyddion ac ysgrifennu cerdd o'u persbectif nhw. Cofiwch eu rhyddhau! (ysgrifennu ffuglen) |